# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Friars

Dyddiad yr arolygiad: 23/02/2026

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Yn dilyn cyfnod hynod anodd, gwnaed newidiadau sylweddol mewn arweinyddiaeth a llywodraethu yn Ysgol Friars. Ers ei phenodi ym mis Ebrill 2025, mae’r pennaeth wedi canolbwyntio ar gryfhau systemau diogelu a bugeiliol, ailsefydlu prosesau sicrhau ansawdd a rhoi pwyslais cryf ar ailadeiladu ymddiriedaeth a meithrin diwylliant cynhwysol. Mae’r rhaglen dra ystyriol hon o newid yn sicrhau gwelliannau mewn addysgu ac yng ngallu arweinwyr canol i werthuso darpariaeth a dysgu o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae arweinyddiaeth yn gynyddol gydlynol a chydweithredol. Mae staff a llywodraethwyr yn ymroddgar ac yn gefnogol i weledigaeth y pennaeth a’r newidiadau a roddwyd ar waith gan yr uwch dîm arwain.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn sefydlu arferion ystafell ddosbarth clir. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, yn dangos agweddau parchus tuag at yr athro a disgyblion eraill ac yn ymroi yn addas i’w gwaith. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn dros amser. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd hynod gryf o ganlyniad i addysgu effeithiol iawn. Yn yr achosion hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau hynod uchel ac maent yn herio disgyblion i feddwl yn ddwys i ddatblygu eu dealltwriaeth mewn cyd-destunau newydd a mwy cymhleth. Mewn lleiafrif o wersi, mae gwendidau mewn cynllunio yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon bob amser yn cynllunio’n ddigon gofalus i sicrhau cynnydd cyson ac nid ydynt yn gweddu cyflymdra’r dysgu i anghenion disgyblion yn ddigon da. At ei gilydd, mae ansawdd ac effaith adborth ysgrifenedig yn amrywiol. Megis dechrau datblygu y mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol, yn cynnwys cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg ar draws y cwricwlwm.

Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar. Mae’r tîm bugeiliol yn gweithio’n effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol i gefnogi lles disgyblion. Mae darpariaethau fel y Ganolfan Les, ‘Hafan’, ‘Hwb Dysgu’ a ‘Harbwr’, yn cynnig mannau anogol a chymorth teilwredig ac arbenigol ar gyfer anghenion emosiynol a dysgu disgyblion. Mae trefniadau diogelu yn briodol ac yn cael eu deall gan staff. Mae ffocws parhaus ar hyfforddiant ar gyfer arweinwyr, staff a llywodraethwyr ar ystod o faterion diogelu. Mae arweinwyr wedi cymryd camau addas i alluogi disgyblion i fynegi eu barn ac ymgymryd â rolau arwain. Megis dechrau goruchwylio a monitro presenoldeb yn strategol y mae arweinwyr, ac ni sicrhawyd digon o welliant yn yr agwedd bwysig hon. Mae cyfraddau presenoldeb wedi gostwng dros gyfnod ac maent yn parhau i fod islaw cyfraddau presenoldeb ysgolion tebyg.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Cryfhau'r arweinyddiaeth strategol a sut cydlynir dulliau i wella presenoldeb disgyblion

A2 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn gynyddol ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod addysgu yn gyson yn herio disgyblion i wneud cynnydd cryf

A4 Cryfhau'r cynllunio ar gyfer y Gymraeg, yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r iaith ar draws y cwricwlwm

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/04/2026